



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

DATGANIAD O FWRIAD RHWYMEDIGAETH CWMNI YNNI – ECO3

Dyddiad cyhoeddi: 14^{eg} o Fai 2019

Rhif Fersiwn: F2

Cyhoeddi ar y wefan: <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Housing-Improvements/Energy-Efficiency/ECO-Flex-Energy-Efficiency-Improvements.aspx>

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) yn gynllun arbed ynni gan y llywodraeth i helpu i ostwng gollyngiadau carbon a nifer yr aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd. Mae Cymhwysedd Hyblyg ECO wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar i'n galluogi fel awdurdod lleol i ymgysylltu â chwmnïau ynni gyda dull meini prawf hyblyg newydd, er mwyn galluogi cyflenwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau a chynorthwyo aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd neu feddianwyr cartrefi sydd ar incymau isel ac sy'n agored i effeithiau cartrefi oer.

Y cyflenwyr ynni neu eu gosodwyr / contractwyr sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â p'un a ddylai cartref gael mesurau ECO. Sylwch nad yw cael eich cynnwys mewn Datganiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflenwr yn gwarantu cyllid ECO, oherwydd bydd y penderfyniad terfynol yn dibynnu ar;

- i) Arolwg a gynhelir gan osodwyr / contractwyr y cyflenwyr a'r costau gosod a gyfrifir
- ii) Yr arbedion ynni y gellir eu cyflawni mewn eiddo, a
- iii) P'un a yw cyflenwyr wedi cyrraedd eu targedau neu a oes angen mesurau pellach arnynt i gyrraedd eu targedau ECO.

Mae'n bosibl na fydd cyllid ECO yn talu costau llawn y mesurau, ond mae'n rhaid i aelwydydd gael eu hysbysu o unrhyw gyfraniad sy'n ofynnol ganddynt a chytuno cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

Mae CBSC yn disgwyl i unrhyw gyflenwr neu gontractwr Rhwymedigaeth Cwmni Ynni gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a dilyn gofynion Ofgem ar gyfer cynllun 'Help to Heat' Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Byddai angen iddynt hefyd weithredu'n unol ag ymarfer gorau yn y diwydiant o ran gofal defnyddwyr a safonau ansawdd unrhyw waith a allai gael ei wneud.

2. SUT YR YDYM YN BWRIADU ADNABOD AELWYDYDD CYMWYS

Bydd CBSC yn targedu ardaloedd incwm isel a chartrefi sydd â:

- i) Lefelau perfformiad ynni gwael ac incwm isel
- ii) Pobl ag incwm isel ac anhwylderau iechyd, sy'n arbennig o agored i niwed gan oerfel

Mae cymhwysedd hyblyg yn ymwneud ag aelwydydd deiliadaeth breifat yn unig. At hynny, mae cyfyngiad ar eiddo rhent preifat, i adlewyrchu'r gofynion ar wahân ar gyfer landlordiaid i ddiwallu'r isafswm o ran safonau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat. O'r herwydd dim ond insiwleiddio wal solet ac adnewyddadwy fydd yn gymwys ar gyfer eiddo EPC band F a G. Mae Tai Cymdeithasol – fel y diffinnir yng Ngorchymyn ECO - yn cael eu heithrio o'r hyblygrwydd. Mae meini prawf cymhwyso wedi'u rhestru isod a bydd angen i berchennog yr eiddo lofnodi datganiad.

3. MEINI PRAWF CYMHWYSO

Mae'n rhaid i aelwydydd ateb meini prawf **i) neu ii)** i fod yn gymwys.

i) Aelwydydd gyda chostau uchel ac Incwm Isel;

Mae'n rhaid i'r eiddo fod yn raddfa E, F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) diweddar neu fod â sgôr sy'n gyfartal i neu'n uwch na 15 pwynt yn Nhabl 1 isod

ac

Boed hynny yn gartref sydd mewn tlodi tanwydd (yn gwario 10% o incwm y cartref ar gostau tanwydd cartref) neu ar incwm isel (fel y pennwyd o **Dabl 2** Incwm Cartref Blynnyddol isod)

Neu;

ii) Aelwydydd sy'n ddiamddiffyn i effeithiau cartref oer ac gyda incwm isel;

Penderfynir pa mor agored i niwed yw'r aelwyd gan fodloni'r meini prawf yn **Nhabl 3** isod.

ac

Boed hynny yn gartref sydd mewn tlodi tanwydd (yn gwario 10% o incwm y cartref ar gostau tanwydd cartref) neu ar incwm isel (fel y pennwyd o **Dabl 2** Incwm Cartref Blynnyddol isod)

3.1. Aelwydydd gyda chostau uchel

Tabl 1 - Cyflwr yr Eiddo				
Manylion yr eiddo	Math	Pwyntiau	Ticiwch	Sgôr
Nifer yr ystafelloedd gwely	1	1		
	2	2		
	3 +	3		
Nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo	1	1		
	2	2		
	3 +	3		
Faint o ddeunydd insiwleiddio sydd yn y grogloffft ar hyn o bryd	Dim	3		
	Hyd at 150mm	2		
	250mm ac uwch	1		
Pa fath o waliau sydd yn yr eiddo	Adeiladwyd fel rhan o system	3		
	Carreg / bric solet	2		
	Adeiladu ceudod	1		
Faint o ddeunydd insiwleiddio sydd yn y waliau	Allanol	1		
	Mewnol	1		
	Ceudod	2		
	Dim	3		
Pa danwydd gwresogi a ddefnyddir yn yr eiddo	Prif gyflenwad nwy	1		
	Olew	2		
	LPG	3		
	Trydan	5		
	Tanwydd solet	5		
A oes system gwres canolog yn yr eiddo a beth yw ei oedran	Llai na 10 oed	1		
	Mwy na deg oed	3		
	System wedi torri	5		
	Dim system	5		
CYFANSWM				

3.2. Adnabod aelwydydd incwm isel

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r tabl a gyhoeddwyd yn y canllawiau i adnabod aelwydydd incwm isel (BEIS ECO3 LA Flex Guidance) fel y nodir isod;

Tabl 2 - Cyfansoddiad Aelwydydd 2019	
1 oedolyn	£ 9,300
ac 1 plentyn	£ 12,200
a 2 blentyn	£ 15,000
a 3 plentyn	£ 18,000
a 4 plentyn neu fwy	£ 21,000
2 oedolyn	£ 15,200
ac 1 plentyn	£ 18,200
a 2 blentyn	£ 21,100
a 3 plentyn	£ 24,100
a 4 plentyn neu fwy	£ 26,800

Diffinnir incwm yma fel incwm gwario aelwyd ar ôl talu am rent neu forgais. Mae hyn yn cynnwys incwm o bob ffynhonnell, megis enillion net (ar ôl treth), incwm o arbedion a buddsoddiadau, pensiynau, pob budd-dal (gan gynnwys budd-dal tai), a thaliadau treth y cyngor net.

3.3. Adnabod pobl ddiameddiffyn oherwydd oerni

Mae angen dangos bod yr aelwyd yn wynebu mwy o berygl yn sgil effeithiau byw mewn cartref oer, ac mae CBSC yn mabwysiadu'r dull canlynol.

Mae canllawiau NICE 'Excess winter deaths and illness and the health risks associated with cold homes' yn nodi bod amrywiaeth eang o bobl yn wynebu mwy o berygl oherwydd oerfel. Mae hyn yn ai oherwydd cyflwr meddygol, megis clefyd y galon; anabledd sydd, er enghraifft, yn atal pobl rhag symud o gwmpas i gadw'n gynnes, neu sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu heintiau ar y frest; neu amgylchiadau personol, megis methu â ffordio cadw'n ddigon cynnes.

Bydd CBSC yn targedu aelwydydd sy'n cynnwys pobl gyda'r canlynol, sy'n adlewyrchu canllawiau 2015 Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar farwolaethau a salwch dros y gaeaf yn sgil cartrefi oer.

Tabl 3 – Pa mor agored i niwed yw'r cleient?	
Mae aelod o'r aelwyd:	
1	Yn berson dros 60 oed (mae angen prawf i ddangos oedran)
2	Yn blentyn mewn addysg neu'n fam feichiog
3	Yn dioddef o anhwylderau anadlol (yn arbennig clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma plant)
4	Yn dioddef o anhwylderau cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd cerebrofasgiwlar)
5	Yn dioddef o salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol)
6	Yn camddefnyddio sylweddau
7	Yn dioddef o Dementia
8	Yn dioddef o anhwylderau niwrobiologol a chlefydau cysylltiedig (e.e. fibromyalgia, ME)

9	Yn dioddef o salwch terfynol / canser
10	Yn methu â symud llawer / anabl
11	Yn dioddef o hemoglobinopathi (clefyd y crymangelloedd, thalasaemia)
12	Yn rhywun ag anabledau dysgu difrifol
13	Yn dioddef o afiechydon hunanmiwneidd a diffyg hunanmiwneidd (e.e. lwpws, MS, diabetes, HIV)
14	Pobl â dibyniaethau
15	Pobl sydd wedi mynd i'r ysbyty oherwydd eu bod wedi disgyn
16	Mewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid (os ydynt yn byw mewn deiliadaeth breifat)
17	Pobl sy'n cael cyfnodau o ddiartrefedd

Datganiad wedi'i lofnodi gan feddyg neu ymarferydd iechyd i gadarnhau problemau iechyd 3-13.

I gymhwyso fel aelwyd sy'n agored i niwed oherwydd oerfel, mae'n rhaid i rywun ar yr aelwyd fod yn dioddef o un o'r cyflyrau iechyd uchod o leiaf. Caiff unrhyw aelwydydd sy'n cael eu hatgyfeirio heb ateb y meini prawf uchod eu hystyried fesul achos gan CBSC.

Prosiectau "mewnlenni" deunydd insiweiddio mewn waliau solet

Os oes gwaith posibl wedi'i nodi, bydd aelwydydd yn cael eu cefnogi i fanteisio ar gyllid er mwyn insiweiddio waliau solet o dan y categori "mewnlenni" fel y nodir yng nghanllawiau BEIS a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017.

4. LLYWODRAETHU

Bydd y swyddogion isod yn gyfrifol am lofnodi datganiadau ar ran yr awdurdod lleol.

- **Ivor Jones – Rheolwr Gwelliannau Tai**
 - **Esyllt Hughes – Syrfëwr Technegol Gwelliannau Tai**
- E-bost:** hsg.financial.assistance@conwy.gov.uk
Rhif Ffon: 01492 574 641

Sylwch: Dylech ganiatáu 14 diwrnod i'r datganiadau gael eu llofnodi.

5. ATGYFEIRIADAU

O dro i dro bydd atgyfeiriadau'n dod o ffynonellau amrywiol nas diffinnir ar hyn o bryd.

6. TYSTIOLAETH, MONITRO AC ADRODD

Cofnodir gwybodaeth ar nifer o gysylltiadau / atgyfeiriadau unigryw a wneir i CBSC ar gyfer Cymhwysedd Hyblyg ECO a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn eu hadroddiadau perfformiad blynyddol i'r Tîm Tai. Caiff gwybodaeth ei chofnodi hefyd am y math a nifer o fesurau a ariennir ac a osodir i aelwydydd cymwys o dan y cynllun hwn, gwerth y mesurau hynny ac amcangyfrifon o'r arbedion ariannol a/neu garbon disgwylidig.

7. LLOFNOD



Iwan Davies, Y Prif Weithredwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Dyddiad 14^{eg} o Fai 2019